**Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 6 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 14:00 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Adroddiad y Gweinidog |

**Diben**

1. Rhoi'r diweddaraf am y materion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

   **Argymhelliad**

2. Gwahoddir yr aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

   **Cefndir**

3. Cyfarfu'r Pwyllgor ddiwethaf ar 30 Ionawr 2003. Mae'r papur hwn yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.

   **Gweithgareddau'r Dirprwy Brif Weinidog**

4. **7 Chwefror** – Cynhadledd Democratiaeth a Phobl Ifanc. Roedd cynrychiolwyr o bob ran o'r Gymanwlad - Asia, Affrica, Awstralasia, y Caribî, Ewrop a'r Pasiffig - yn bresennol yn y gynhadledd a gynhaliwyd yn Siambr y Cynulliad. Roedd pobl ifanc o ysgolion lleol hefyd yn cymryd rhan. Edrychodd y cynrychiolwyr ar ffyrdd o sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan lawn yn y broses ddemocrataidd. Gwnaethant bwysleisio enghreifftiau o arferion da ac awgrymu camau i'w cymryd yn y dyfodol.
5. **Chwefror 20-21** - Cyfarfod y Cyngor Amaethyddiaeth ym Mrwsel. Trafodaethau ar Adolygiad Canol Tymor y PAC.

6. **3 Mawrth** - Wythnos Cymru ym Mrwsel i helpu hyrwyddo proffil Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd.

   **Gweithgareddau Rhyngwladol Eraill**

7. Mae atodiad 1 yn rhoi manylion digwyddiadau eraill lle y bu Gweinidogion a Swyddogion y Cynulliad yn cymryd rhan ynddynt. (Nid oes fersiwn Cymraeg o atodiad 1).
8. Bydd "**Wythnos Cymru ym Mrwsel 2003** - **Dyfodol Cynaliadwy"** yn cael ei chynnal rhwng 3-6 Mawrth. Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chanolfan Ewropeaidd Cymru (CEC) sy'n rheoli'r digwyddiad

gyda chefnogaeth y WDA. Mae'n adeiladu ar y digwyddiadau eraill a gynhaliwyd i hyrwyddo Cymru, ei diwylliant a'i bwydydd ymysg cymuned wleidyddol Ewrop sydd wedi ei lleoli yn y ddinas.

9. Bydd y digwyddiadau ar gyfer eleni yn cynnwys:

- pedwar seminar polisi ar Ddatblygu Cynaliadwy, Technoleg Gwybodaeth, yr Amgylchedd ac Iechyd (3,4 a 5 Mawrth);
- derbyniad yn y Senedd Ewropeaidd gyda Phrif Weinidog Cymru yn arwain a Neil Kinnock fel siaradwr gwadd (3 Mawrth);
- cinio hanner dydd yng nghartref Llysgennad Prydain i hyrwyddo bwyd Cymru i gasgliad o bobl a dargedwyd gennym, ac fe fyddaf i'n bresennol yno (3 Mawrth);
- perfformiad o stori Dylan Thomas, Portrait of the Artist as a Young Dog, gan Clwyd Theatr Cymru (6 Mawrth).

6. Mae Atodiad 2 yn dangos amserlen o ddigwyddiadau'r wythnos. Nid oes fersiwn Cymraeg atodiad 2 ar gael. Cyfeirwch a papur 1 yn Saesneg.

**Materion Ewropeaidd Cyffredinol**

7. **Cytundeb Ymuno â'r UE**. Daeth y gwaith o ddrafftio'r Cytundeb Ymuno i ben ar 5 Chwefror ac roedd wedi ei seilio'n bennaf ar y canlyniadau y cytunwyd arnynt yng Nghyngor Ewropeaidd Copenhagen, er y gwnaed rhai newidiadau munud olaf ar gyfer rhai darpar-aelodau. Nid oedd y newidiadau'n ymwneud â materion ariannol mewn unrhyw ffordd, a gwnaed y cyfan yn "ysbryd Copenhagen".

**Michael German AC**

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r**

**Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor.**